# **ARLWYO** L1/2

**Dyfarniad Galwedigaethol Lefel 1/2 mewn Lletygarwch ac Arlwyo**

| | |
|---|---|
| **Pryd gaiff ei gyflwyno:** | Un prynhawn yr wythnos dros ddwy flynedd |
| **Teitl y Cymhwyster:** | Dyfarniad Galwedigaethol Lefel 1/2 mewn Lletygarwch ac Arlwyo |
| **Corff Dyfarnu:** | CBAC |

### Cyflwyniad i'r pwnc
Mae'r cymhwyster hwn wedi'i anelu at ddysgwyr cyn 16 ac yn eu galluogi i ennill profiad, sgiliau a gwybodaeth yn y diwydiant Lletygarwch ac Arlwyo.

### Cynnwys y Cwrs
Dyma bwnc lefel TGAU sy'n cynnwys pob agwedd o'r diwydiant gan gynnwys:
- Deall diwydiant lletygarwch ac arlwyo
- Diogelwch bwyd
- Microfaetholion a Macrofaetholion a'u pwysigrwydd ar gyfer deiet cytbwys
- Gwahanol ddulliau coginio a'u heffeithiau ar faetheg
- Cynllunio a choginio prydau ar gyfer camau bywyd penodol a gofynion deietegol penodol
- Dysgu sut i ddylunio pryd ar gyfer sgiliau cyflwyno
- Dadansoddi, adolygu a gwerthuso'r prydau mae'r dysgwyr wedi'u cynhyrchu
- Cyfleoedd gyrfa yn y diwydiant

Yn ystod y cwrs bydd disgyblion yn defnyddio ceginau ac offer safon diwydiant Coleg Cambria sydd o'r radd flaenaf.

Mae pob darlithydd chef wedi'u hyfforddi yn y diwydiant ac wedi gweithio mewn amrywiaeth o sefydliadau arlwyo ledled y Deyrnas Unedig a'r Byd.

Bydd yr holl gynhwysion ar gyfer y sesiynau datblygu sgiliau ymarferol yn cael eu darparu ar gyfer pob dysgwr. Mae angen iddynt ddod â chynhwysydd gyda nhw i fynd â'u bwyd adref yn ddiogel.

### Costau
Bydd angen i ddysgwyr brynu cyfarpar diogelu personol cywir ar gyfer y cwrs. Bydd rhestr gwisg dysgwyr yn cael ei darparu cyn i'r cwrs ddechrau. (Sylwch fod y wisg yn elfen hanfodol o'r cwrs.)